

Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin

Dydd Iau 7 Mawrth 2019

Canolfan Hamdden Caerfyrddin, 6pm

Yn Bresennol: Aelodau:

Mark Hadley (MH) – Cadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol
Karen Burch (KB) – Is-gadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol
Dai Stacey (DS)
Jillie Gardiner (JG)
Richard Leggett (RL)
Mo Rapley (MR)
Paul Barrett (PB)
Jim Shadbolt (JS)
Caroline Evans (CE)
Glyn Evans (GE)

Ysgrifennydd (dros dro)

Caroline Ferguson (CF) (Rheolwr Dros Dro Mynediad i Gefn Gwlad CSC)

Ymgynghorwyr / Sylwedyddion / Siaradwyr / Y Cyhoedd

Lucy Pugh (LP) - Swyddog Dros Dro Mynediad i Gefn Gwlad CSC
Gruffydd Rees (GR) - Parcmon Mynediad i Gefn Gwlad CSC
Y Cynghorydd Peter Hughes Griffiths (PHG) – Aelod o Fwrdd
Gweithredol CSC
Steve Rayner (SR) – Swyddog Dyfrffyrdd a'r Amgylchedd, Canŵ Cymru
Rob Williams (RW) – Trail Riders Fellowship (TRF)
Alistair Hare (AH)
Jason Winter (JW)
Chris Arnell (CA)

Ymddiheuriadau: Aelodau:

Gerald Brown (GB)
Geoff Williams (GW)
Martin Murray (MM)
Michael Jones (MJ)

Ymgynghorwyr/Sylwedyddion:

Y Cynghorydd Hazel Evans
Glyn Jones/Russell Jones – Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)
Allan Haskins
Neil Thomas – CSC
Y Cynghorydd Dai Jones

Yn Absennol:Jane Evans (JE)

*Mae CSC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Gyngor Sir Caerfyrddin

EITEM	CAMAU GWEITHREDU
<p>Eitem 1 - Croeso a Chyflwyniad</p> <p>Estynnodd MH groeso i bawb i'r cyfarfod a rhoddwyd cyflwyniadau o gwmpas y bwrdd.</p>	
<p>Eitem 2 - Aelodau newydd/Ymddiswyddiadau - Dim</p>	
<p>Eitem 3 - Ymddiheuriadau</p> <p>Daeth ymddiheuriadau i law ac fe'u cofnodwyd.</p>	
<p>Eitem 4 – Materion sy'n codi o'r cofnodion - na roddwyd ar yr agenda fel arall</p> <p><u>Strategaeth Farchogaeth</u> KB: Gofynnodd fod y drafodaeth yn cael ei chynnwys ar yr agenda nesaf</p> <p><u>Gwaith £16k BOAT ac UCR</u> Gwybodaeth gan Alan Warner (Rheolwr Hamdden a Mynediad CSC), bydd gwaith yn dechrau ddydd Llun 11 Mawrth.</p> <p>Llinellau Melyn Dwbl ym Mhen-bre KB: Mae hyn yn broblem o hyd, nid yw'r maes parcio gwaelod yn addas. Mae wedi ysgrifennu at Neil Thomas, y Cyngor Tref a'r Aelod Seneddol i leisio'r pryderon. Mae'n ymddangos mai ychydig iawn o gyfathrebu sy'n digwydd rhwng CNC a CSC.</p> <p>PHG: Mae'r sefyllfa'n cael ei hadolygu, bydd yn mynd i gyfarfod CSC yr wythnos nesaf i'w thrafod.</p> <p>LP: Mae'r gorchymyn newydd yn darparu rhagor o fanylder ynghylch cyfyngiadau pwysau a hyd.</p> <p><u>Y drefn newydd o ran cofnodion cyfarfodydd</u> MH: Dylid cynnwys cofnodion a gymeradwywyd yn y gwahoddiad i gyfarfod nesaf y Fforwm Mynediad Lleol.</p>	<p>CF</p> <p>CF</p>
<p>Eitem 5 - Canŵ Cymru, Cyflwyniad ynghylch Mynediad at Ddŵr at Ddibenion Hamdden,</p> <p>Rhoddwyd cyflwyniad i'r Fforwm gan SR, a fydd yn cael ei anfon at CF a'i ddosbarthu i aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol.</p> <p>CF: Mae CNC bellach wedi cadarnhau bod Mynediad at Ddŵr yn cael ei ystyried i fod yn fater i'r Fforwm Mynediad Lleol, er gwaethaf yr hyn a nodir yn y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.</p> <p>MH: A yw Llwybr Dyffryn Tywi wedi'i ystyried yn gyfle i gael mynediad at yr afon?</p> <p>PHG: Cwestiwn teg</p>	<p>CF</p>

<p>JG: Mae wedi gweithio ar brosiect yn flaenorol lle ystyrid bod afonydd yn 'brif ffyrdd'. Lle y mae'r hawliau tramwy cyhoeddus yn dod i ben ar lan yr afon, a yw'n debygol bod yr afon yn cael ei defnyddio i barhau ar y daith i'r briffordd/hawliau tramwy cyhoeddus nesaf?</p> <p>MH: Beth yw'r broblem o ran mynediad at Llyn Brianne?</p> <p>SR: (1) Cyfamod ar y tir pan adeiladwyd yr argae i wahardd mynediad at ddibenion hamdden. (2) Defnydd anghyfrifol o'r gorlifan gan y canwyr (3) Dŵr Cymru yn wrth-risg iawn</p> <p>CF: Pam y cafodd trafodaethau ynghylch mynediad at Llyn Brianne eu gohirio? Pwy oedd person cyswllt CSC?</p> <p>SR: Bydd yn cael gwybod am yr enw a'i anfon at CF i ailddechrau'r trafodaethau o bosibl.</p> <p>MH: Nid oes rheswm i'r Fforwm Mynediad Lleol beidio â chefnogi mynediad at ddŵr.</p> <p>CE: Roedd y mynediad at Gamlesi Merswy wedi achosi gwrthdaro â physgotwyr, a gymerodd amser i'w ddatrys.</p> <p>SR: Nid oes cymaint o wrthdaro yn y gaeaf ond mae'n dal i ddigwydd; mae twristiaid haf yn padlo'n achosi gwrthdaro â'r tymor pysgota.</p> <p>GR: A ydy canwio'n achosi difrod i silfeydd?</p> <p>SR: Mae padlwyr yn gwybod y dylent osgoi ardaloedd sensitif.</p> <p>SR: Nid oes diwygiadau sylweddol i fynediad at ddŵr yn debygol ar hyn o bryd.</p>	<p>CF/SR</p>
<p>Eitem 6 - Adroddiad ar Faterion yn ymwneud â'r Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus</p> <p>RL: Mae nifer y materion sydd heb eu datrys yn parhau i gynyddu, ac mae bellach ar y lefelau uchaf ers dechrau'r adroddiadau.</p> <p>CE: Mae'n debygol bod pobl yn ei chael hi'n haws roi gwybod am faterion.</p> <p>RL: Mae nifer uchel y materion yn ymwneud ag arwyddion yn peri pryder. Mae arwyddion da yn rhoi hyder i bobl ddefnyddio llwybrau.</p> <p>GR: Ar lawer o lwybrau lle y mae angen arwyddion, ceir materion eraill hefyd.</p> <p>CF Dylai'r llwybrau sy'n cael eu hyrwyddo fod yn hawdd eu defnyddio ac yn cynnwys arwyddion.</p> <p>MH: Byddai rhestr o Lwybrau'r Sir yn ddefnyddiol ar gyfer y cyfarfod nesaf.</p> <p>(Sylwedydd) AH: Pam mae'r llwybrau mor wael yn Sir Gaerfyrddin? Pam nad yw CSC yn defnyddio cynllun megis Mabwysiadu Llwybr? Byddai llawer o gerddwyr yn hapus i gadw llwybrau'n glir.</p> <p>GR: Rydym yn gwneud mwy o ddefnydd o wirfoddolwyr, mae llawer o waith wedi'i gwblhau mewn llawer o ardaloedd.</p> <p>CE: A all y Cynghorau Cymuned gymryd cyfrifoldeb dros y llwybrau?</p> <p>GR: Gallant, mae rhagor o waith yn cael ei wneud o ran hyn.</p> <p>JS: Mae grwpiau Cymdeithas y Cerddwyr Lleol yn cerdded yn rheolaidd ac nid ydynt yn dod o hyd i nifer fawr o broblemau, mae llawer o'r llwybrau'n dda.</p>	<p>MM</p>

<p>Eitem 7 - Penodi Aelodau Ychwanegol</p> <p>CF: Nid yw'r gynrychiolaeth ar Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin mor gytbwys â'r hyn a argymhellir. Byddai ychwanegu cynrychiolwyr o blith perchnogion/meddianwyr tir â mynediad cyhoeddus, grwpiau anabledd, cadwraethwyr natur a threftadaeth, perchnogion/meddianwyr/rheolwyr arfordiroedd, trafndiaeth neu iechyd yn fuddiol i'r fforwm.</p> <p>MH: Mae Cadeirydd Cymru y Cadeiryddion wedi rhoi gwybod ein bod yn gallu hysbysebu am aelodau ychwanegol o grwpiau penodol i wella'r cydbwysedd.</p> <p>CF: A yw'r Fforwm yn cefnogi'r syniad hwn?</p> <p>Pawb yn cytuno.</p> <p>CF: Bydd yn dechrau ar y broses recriwtio cyn gynted â phosibl.</p>	CF
<p>Eitem 8 - Cylch Gorchwyl y Fforwm Mynediad Lleol</p> <p>CF: Dosbarthwyd y cylch gorchwyl presennol i sicrhau bod yr holl aelodau'n gyfarwydd â'r manylion. A ydynt yn ddigon clir? A oes unrhyw aelodau'n teimlo y dylid ychwanegu unrhyw beth? Mae modd anfon unrhyw beth mewn neges e-bost i'w ystyried. Gellir trafod unrhyw newidiadau yn y cyfarfod nesaf.</p>	Pawb
<p>Eitem 9 - Adroddiad Blynyddol y Fforwm Mynediad Lleol.</p> <p>MH: Dosbarthwyd y fersiwn ddrafft i'r aelodau, ni chafwyd unrhyw sylwadau anffafriol. Byddwn yn cyflwyno unrhyw syniadau i gyfarfod nesaf y Pennaeth Gwasanaeth i'w cymeradwyo cyn eu cyhoeddi ar y wefan.</p>	MH
<p>Eitem 10 - Gweithredu Hawliau o dan Gyfraith Gwlad (EDCL)</p> <p>KB: Mae'n bosibl i berchennog tir weithredu hawliau tramwy cyhoeddus o dan Gyfraith Gwlad. Nid oes angen ymgynghoriad, mae'n broses syml.</p> <p>CF: Os yw'r Cyngor yn berchen ar y tir, mae Gorchmynion Creu wedi'u defnyddio erioed i greu hawliau tramwy cyhoeddus newydd gan nad oes modd defnyddio Cytundebau Creu. Mae EDCL yn darparu dull arall.</p> <p>KB: Beth sy'n digwydd o ran EDCL yn Cross Hands?</p> <p>CF: Mae'n aros am gadarnhad o ddargyfeirio llwybr troed cyn uwchraddio'r llwybr i fod yn llwybr ceffylau drwy EDCL. Os cwblheir llwybr ceffylau yn gyntaf, yna byddai angen cael gwared ar y llwybr troed presennol, sy'n anos o lawer i'w gyflawni.</p> <p>MH: A ddylai'r Fforwm Mynediad Lleol ysgrifennu llythyr i gefnogi'r defnydd o EDCL?</p> <p>CF: Nid oes angen ar hyn o bryd. Nid oes unrhyw wrthwynebiad i ddefnyddio EDCL ar hyn o bryd. Os bydd gwrthwynebiad yn y dyfodol mae'n bosibl y bydd llythyr cefnogol yn ddefnyddiol.</p>	

<p>Eitem 11 - Cynllun Gwella Hawliau Tramwy</p> <p>CF: Mae ymgynghoriad ar waith tan ddiwedd mis Ebrill 2019.</p> <p>PB: Ni chafwyd unrhyw gydnabyddiaeth ynghylch ei sylwadau blaenorol</p> <p>CF: Bydd yn anfon copi i Capita a chodi'r mater ag ymgynghorydd</p> <p>MH: Mae'n bosibl y bydd angen cyfarfod is-bwyllgor i lunio ymateb y Fforwm Mynediad Lleol.</p> <p>KB: Pawb i baratoi eu nodiadau eu hunain er mwyn iddynt gael eu cyfuno</p> <p>MH: Dylid cyflwyno sylwadau erbyn diwedd mis Mawrth ar gyfer y cyfarfod yng Nghanolfan Tywi ym mis Ebrill (i'w drefnu)</p> <p>RL: Gallai cynnal trafodaeth i ystyried y materion fod yn fwy defnyddiol na chyflwyno sylwadau'n unig</p>	<p>Pawb</p>
<p>Eitem 12 – Llwybr Dyffryn Tywi</p> <p>MH: Dosbarthwyd cofnodion y cyfarfod</p> <p>JG: A oes cyllid yn dod o arian Teithio Llesol?</p> <p>CF: Nac oes, nid yw Llandeilo i gymwys i gael cyllid Teithio Llesol.</p> <p>KB: Siaradodd â Simon a Sam ynghylch defnyddio darn wrth ochr y ffordd sydd wedi'i baratoi'n barod, ond dywedwyd na. Byddai'r darn hwn yn ddelfrydol i geffylau hefyd. Roedd pryder bod CSC yn negyddol o ran mynediad i geffylau, ac mae'n annhebygol y bydd unrhyw gynnig i'w gynnwys.</p> <p>CF: Mae JE mewn trafodaeth â Simon a Sam ynghylch mynediad i geffylau ar hyd rhan o Lwybr Dyffryn Tywi, mae'n bosibl bod cyllid Cymdeithas Ceffylau Prydain ar gael.</p> <p>DS: Mae darnau amldefnydd o Lwybr y Penwynion yn amrywio; mae rhai'n dda, mae rhai'n wael iawn. Mae modd iddo weithio ond os ydym yn rhoi pwysau ar CSC o ran yr amser cwblhau (3 blynedd) yna mae'n bosibl na fydd y gwaith o gynyddu'r lled i ganiatáu mynediad i geffylau'n cael ei gyflawni.</p> <p>KB: 5m yw'r lled delfrydol ond byddai 3m yn gweithio.</p> <p>DS: Ni fyddai'n teimlo mor ddiogel fel beiciwr ar lwybr amldefnydd sydd ond 3m o led. Nid oes problem mewn egwyddor o ran llwybrau amldefnydd i ganiatáu mynediad i geffylau.</p> <p>CF: Mae sylwadau DS fel beiciwr yn werthfawr, a allai rannu barn ei grŵp ynghylch y pwnc? Beth am lythyr ar y cyd gan DS a MH?</p> <p>DS: Bydd yn darparu rhywbeth.</p> <p>KB: Mae angen i ffermwyr gefnogi marchogaeth, buddion economaidd - ffensio, porthiant, torri gwair</p> <p>GE: Yn gymharol ddiweddar, defnyddid y rheilffordd gan drenau</p> <p>CF: Ymateb CSC i gynnig drafft y Fforwm Mynediad Lleol i gefnogi Llwybr Dyffryn Tywi...</p> <p><i>1) Newid i 'Lwybr Rhannu Defnydd' o 'lwybr amldefnydd oddi ar y ffordd' yn y paragraff rhagarweiniol</i></p> <p>Pawb yn cytuno.</p>	<p>DS</p>

<p>2) <i>Newid yr amodiad cyntaf i 'y bwriad yw ei gyflawni o fewn 3 blynedd' yn hytrach nag 'ymrwymiad i'r gyflawni o fewn 3 blynedd'</i></p> <p>Pawb yn cytuno</p> <p>RL: Anghofiwch am yr amserlen 3 blynedd, byddai'n hurt tynnu'r gefnogaeth yn ôl ar ôl 3 blynedd.</p> <p>3) <i>Ystyriaeth Mynediad i Geffylau heb ei newid</i></p> <p>4) <i>Newid yr amodiad olaf o 'ni fydd costau prosiect Llwybr Dyffryn Tywi yn cael effaith negyddol ar y prosiectau cyfalaf na'r prosiectau cynnal a chadw ar draws y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus' i 'nid bwriad yr Awdurdod yw defnyddio'r gyllideb hawliau tramwy cyhoeddus i wneud gwaith cynnal a chadw'</i></p> <p>MH: Nid oes modd cefnogi hynny. Pawb yn cytuno.</p> <p>CF: Bydd yn adrodd yn ôl i dîm Simon</p>	CF
<p>Eitem 13 - Fferm Wynt Brechfa</p> <p>CF: Mae'n aros am ymateb gan Russell (CNC) - i'w adael ar yr Agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.</p>	CF
<p>Eitem 14 - Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus</p> <p>MH: Mae'r dogfennau ymgynghori wedi'u dosbarthu, a yw'r aelodau'n gefnogol i'r broses adnewyddu?</p> <p>Pawb yn cytuno, bydd MH yn ymateb ar ran y Fforwm Mynediad Lleol</p>	MH
<p>Eitem 15 - Menter Mynyddoedd Cambria</p> <p>MH: A yw'r Fforwm Mynediad Lleol yn gefnogol i'r syniad?</p> <p>KB: Ydy, cyhyd â bod yr hawliau mynediad presennol yn yr ardal yn aros heb eu newid - dim hawliau wedi'u dileu na'u diwygio o ganlyniad.</p> <p>MH: Bydd yn darparu datganiad ymateb.</p>	MH
<p>Eitem 16 - Prosiect BOAT/ORPA</p> <p>MH: Mae'n aros i glywed gan yr adran Briffyrdd - a yw'r prosiect yn ddefnyddiol iddi?</p> <p>KB: A ddylid coladu gwybodaeth am y llwybrau hysbys beth bynnag?</p> <p>MH: Dylid, gellir defnyddio ffurflen arolygu bresennol CSC, bydd yn ei dosbarthu</p>	MH
<p>Eitem 17 - Cyd-gyfarfod Cadeiryddion/Ysgrifenyddion y Fforwm Mynediad Lleol</p> <p>CF: Mae fersiwn ddrafft o gofnodion y cyfarfod wedi'u dosbarthu gan CNC er gwybodaeth.</p> <p>KB: A fyddai modd gofyn i awdurdodau eraill yn ystod cyfarfod cadeiryddion y Fforwm Mynediad Lleol a oes ganddynt faterion tebyg o ran mynediad i farchogwyr?</p> <p>MH: Bydd yn anfon neges e-bost at John Morgan i ofyn iddo gan nad yw'n gallu bod yn bresennol.</p>	

Eitem 18 - Eitemau Agenda ar gyfer y dyfodol

Llinellau melyn dwbl ym Mhen-bre
Strategaeth Farchogaeth
Adroddiad Blynyddol y Fforwm
Mynediad at Ddŵr - Cynllun Gwella Hawliau Tramwy
Fferm Wynt Brechfa
Prosiect BOAT/ORPA
Diweddariad Staff

Eitem 19 - Unrhyw Fater Arall

Cyfarfodydd Penaethiaid Gwasanaeth

MH: Gofynnwyd iddo beidio â dosbarthu cofnodion cyfarfod y Penaethiaid Gwasanaeth i'r Fforwm Mynediad Lleol llawn (rhoddodd grynodedeb o'r drafodaeth â Stephen Pilliner).

KB: Cynhaliwyd cyfarfodydd Penaethiaid Gwasanaeth oherwydd na allai Penaethiaid Gwasanaeth fynychu cyfarfodydd y Fforwm Mynediad Lleol.

Gofynnodd yr aelodau fod hyn yn cael ei drafod ymhellach â Mr Pilliner gan esbonio y byddai aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol yn hoffi gweld copi o'r cofnodion.

MH: Bydd yn trefnu cyfarfod nesaf y Penaethiaid Gwasanaeth ar gyfer mis Gorffennaf yn ddelfrydol.

Staff

RL: Pryd bydd y swydd wag yn cael ei llenwi?

CF: Disgwylir i'r gwaith ailstrwythuro gael ei gwblhau erbyn 1 Ebrill. Mae'r ymgynghorydd yn helpu i lenwi'r swydd wag nes ei bod yn cael ei llenwi.

RL: A allwn gael ateb i nifer gynyddol y materion.

Gorchmynion Rheoleiddio Traffig

MH: Mae'n ddefnyddiol gwybod ar ba ffyrdd y ceir Gorchmynion Rheoleiddio Traffig.

CF: Mae angen cael rhestr gyfredol.

Fforwm Mynediad Lleol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

MH: Mae wedi bod yn bresennol yn un o gyfarfodydd y Fforwm, roedd yn gyfle i weld sut y mae Fforwm Mynediad Lleol arall yn gweithredu.

Gelli Aur

RL: Mae bellach ar agor.

Cynllun Seilwaith Gwyrdd

CF: Mae'r cynllun yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd, roedd yn gyfle i gael cyllid (Grant Cyfalaf Seilwaith Gwyrdd) ond erbyn hyn mae'r cyllid yn rhan o'r Grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant.

MH

MH/CF

CF

Cymdeithas y Cerddwyr - Cymdogaeth Cerdded Orau Prydain

CF: Mae Cerddwyr Cymru'n chwilio am enwebiadau

Eitem 18 - Cyfarfodydd Nesaf

13 Mehefin 2019 - Canolfan Tywi, Llandeilo

19 Medi 2019 - Canolfan Hamdden Caerfyrddin

5 Rhagfyr 2019 - Canolfan Tywi, Llandeilo.